



Cynllun Cydraddoldeb Strategol

Adroddiad Blynyddol 2017-18

Os oes arnoch angen y wybodaeth hon mewn print bras, Braille, ar dâp sain neu ddisg, cysylltwch â'r

Tîm Polisi a Phartneriaeth
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

01267 224914

cydraddoldeb@sirgar.gov.uk



Cynnwys

Rhagair	3
Adran 1 – Rhagarweiniad	5
Adran 2 – Adnabod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol	13
Adran 3 – Aseidiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb	14
Adran 4 – Hyfforddiant	14
Adran 5 – Trefniadau caffael	15
Adran 6 – Manylion cyswllt	15
Atodiad 1 – Ein Hamcanion a Chynllun Gweithredu 2017-18	16

Adroddiad Blynyddol Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2017-18

Mae'n bleser gennym gyflwyno Adroddiad Blynyddol Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer 2017-18, sy'n manylu ar y modd y rhoddwyd ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar waith. Fel Cyngor, rydym yn cydnabod gwerth amrywiaeth yn ein sir, ac rydym yn falch o'r gwaith a wnaed hyd yma. Serch hynny, rydym yn sylweddoli bod mwy o waith i'w wneud ac edrychwn ymlaen at ddatblygu partneriaethau gyda'n cymunedau a chydau'r grwpiau gwarchoddedig er mwyn dysgu mwy.

Mae Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol yn ddogfennau pwysig sy'n pennu sut y bydd cyrff cyhoeddus yn ystyried anghenion grwpiau â 'nodweddion gwarchoddedig', fel yr amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Y bwriad yw sicrhau bod yr holl unigolion yn cael eu trin yn gyfiawn ac yn deg mewn perthynas â darparu gwasanaethau a llunio strategaeth/polisi.

Fel cyflogwr allweddol yn y sir, rydym wedi symud ymlaen o'r Cynllun Anabledd Tic Dwbl i fod yn Gyflogwr sydd â Hyder Mewn Pobl Anabl. **Fel Cyflogwr sydd â Hyder Mewn Pobl Anabl rydym:**

- wedi cynnal yr hunanasesiad Hyder Mewn Pobl Anabl a'i gwblhau'n llwyddiannus
- yn cymryd yr holl gamau craidd tuag at fod yn gyflogwr sydd â Hyder Mewn Pobl Anabl
- yn cynnig o leiaf un gweithgaredd i gael y bobl iawn ar gyfer ein busnes ac o leiaf un gweithgaredd i gadw a datblygu ein pobl.

Fel Bwrdd Gweithredol mae gennym Hyrwyddwr Anabledd penodedig, sef y Cynghorydd Jane Tremlett. Yn ystod y flwyddyn gwnaethom sefydlu Partneriaeth Anabledd Sir Gaerfyrddin, gydag aelodau o **Gynghrair Anabledd Sir Gaerfyrddin ar gyfer Gweithredu**. Ein nod yw trafod materion allweddol a sicrhau bod y Gynghrair yn cymryd rhan yng nghymau cynnar y broses o gynllunio a chyflwyno gwasanaethau ac ein bod ni fel Awdurdod yn cynorthwyo'r grŵp i ddatblygu arbenigedd a gwybodaeth pellach. Edrychaf ymlaen at weld y bartneriaeth hon yn datblygu ymhellach yn y dyfodol.

Rydym yn parhau i gynnal **Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol** sy'n cydgysylltu'r Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol. Rydym hefyd yn parhau i gynnal Cydraddoldeb Sir Gaerfyrddin fel grŵp o sefydliadau sy'n cynrychioli'r nodweddion gwarchoddedig ac ystod o ddarparwyr gwasanaethau cyhoeddus.

I gloi, hoffwn sôn am y trefniadau ar gyfer ymgynghori ynghylch **cyllideb y Cyngor**. Mae pawb yn ymwybodol fod y pwysau ar y gyllideb yn dwysáu dros y blynyddoedd nesaf. Rwy'n hollol ymroddedig i sicrhau bod gostyngiadau yn y gyllideb yn deg i bob grŵp, lle bynnag y bo hynny'n bosibl.

O ystyried hyn, gwnaethpwyd trefniadau i ymgynghori'n helaeth, gan gynnwys gyda'r Fforwm 50+ ac eraill y mae gwasanaethau'r Cyngor yn ystyried yn fwyaf pwysig. Yn

hwyrach yn y broses, datblygwyd **arolwg yr ymgynghoriad ynghylch y gyllideb** ac anogwyd holl sectorau'r gymuned i gymryd rhan. Roedd hyn yn cynnwys cynrychiolwyr o Sir Gâr Cyfartal. Roedd yr arolwg yn gofyn cwestiynau proffilio demograffig i bobl, a olygai bod modd deall safbwyntiau pobl o wahanol grwpiau ar wahân. I grynhoi, roedd y gweithgaredd hwn yn helpu i sicrhau bod tegwch yn rhan annatod o benderfyniadau cyllidebol y Cyngor.

Yn naturiol, mae ein dyletswyddau cyfreithiol yn ganolog i holl waith cynllunio a darparu ein gwasanaethau, ac mae gan ein gweithlu rôl allweddol i'w chwarae o ran hybu amrywiaeth ac ymdrin ag annhegwch.

Y Cynghorydd Linda Evans a'r Cynghorydd Cefin Campbell
Aelodau Bwrdd Gweithredol dros Gydraddoldeb

Adran 1 - Rhagarweiniad

1.1 Rhagarweiniad a chefnidir

Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Y Ddyletswydd Gyffredinol

Nod y Ddyletswydd Gyffredinol yw sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus, a'r rhai sy'n cyflawni swyddogaeth gyhoeddus, yn ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol at gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a chysylltiadau da yn eu gweithgareddau o ddydd i ddydd.

Mae gofyn bod cyrff cyhoeddus yn rhoi sylw dyledus i'r angen am wneud y canlynol:

1. Dileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
2. Hybu cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a phobl nad ydynt yn ei rhannu
3. Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a phobl nad ydynt yn ei rhannu.

Dyletswyddau penodol yng Nghymru

Yn Neddf Cydraddoldeb 2010 gwnaed darpariaeth fel bod Gweinidogion Cymru yn gallu llunio rheoliadau sy'n gosod dyletswyddau cydraddoldeb sector cyhoeddus penodol ar awdurdodau cyhoeddus perthnasol Cymru a restrir yn Rhan 2 o Atodlen 19 i'r Ddeddf.

Datblygwyd y dyletswyddau er mwyn bod yn gymesur eu dyluniad, yn berthnasol i'r angen, yn dryloyw eu cynllun ac wedi eu teilwra i dywys awdurdodau cyhoeddus perthnasol Cymru tuag at gyflawni'r ddyletswydd gyffredinol yn well. Yr uchelgais yw ymateb yn well i anghenion dinasyddion Cymru sy'n dibynnu ar y gwasanaethau a ddarperir iddynt gan y sector cyhoeddus.

Cyflwynir y Dyletswyddau Penodol yng Nghymru yn Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011, a ddaeth i rym ar 6 Ebrill 2011, ac maent yn nodi y bydd y cyrff a restrir yn ymgymryd â'r gofynion canlynol ac yn eu datblygu:

- Yr Amcanion
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Ymgysylltu
- Asesu Effaith
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Gwybodaeth am gyflogaeth
- Gwahaniaethau rhwng cyflogau

- Hyfforddiant staff
- Caffael
- Adroddiadau blynyddol (gan Awdurdodau Cyhoeddus a Gweinidogion Cymru)
- Cyhoeddi
- Adolygu
- Hygyrchedd

Cyngor Sir Caerfyrddin

Cyhoeddodd Cyngor Sir Caerfyrddin ei ail Gynllun Cydraddoldeb Strategol ym mis Ebrill 2016 a bu'r adolygiad hwn yn gyfle i edrych ar yr hyn a gyflawnwyd ac i gael golwg o'r newydd ar ein blaenoriaethau fel Cyngor.

Mae ein gweithdrefn gwynion a chanmoliaeth hefyd yn elfen allweddol wrth sicrhau gwell gwasanaethau. Byddwn ni'n sicrhau bod unrhyw gŵyn, canmoliaeth neu sylw ynghylch cydraddoldeb yn cael ei gofnodi fel un sy'n ymwneud â chydraddoldeb, a byddwn yn monitro'r sefyllfa ac yn adrodd ar ein cynnydd o ran ymdrin â hwy. Rydym yn bwriadu cryfhau'r cysylltiadau hyn a byddwn yn sicrhau bod y cymunedau, y rhanddeiliaid allweddol a'r unigolion/grwpiau sy'n cynrychioli un neu fwy o'r nodweddion gwarchoddedig yn ymwybodol o'n gweithdrefn.

Mae'r Tîm Polisi a Phartneriaethau yn cydweithio'n agos â'r Is-adran Rheoli Pobl a holl adrannau'r cyngor i hyrwyddo'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol gan barhau i gasglu tystiolaeth a fydd yn cyfrannu at y gwaith. Mae'r tîm hefyd yn cydweithio'n agos â rhanddeiliaid ar draws y sir, ac yn cwrdd yn rheolaidd â grwpiau megis Cynghrair Anabledd Sir Gaerfyrddin a Sir Gâr Cyfartal.

Amcanion Llesiant 2017-18

Yn dilyn ymgynghoriad, drafftiodd Cyngor Sir Caerfyrddin set o Amcanion Llesiant / Gwella. Cymeradwywyd y rhain yn y Cyngor Sir ar 8 Mawrth 2017. Fel arfer, rydym yn cyhoeddi ein Amcanion Gwella gyda thystiolaeth, gan gynnwys dangosyddion perfformiad a thargedau, er mwyn eu monitro. Fodd bynnag, eleni rydym wedi ymgorffori ein Amcanion Gwella yn ein Cynllun Amcanion Llesiant newydd.

Fe'u cadarnhawyd yn dilyn yr etholiadau lleol yn 2017 ac mae Cynlluniau Gweithredu manwl ar waith i gefnogi pob Amcan Gwella / Llesiant. Bydd y rhain yn cael eu monitro a'u hadrodd trwy ein Fframwaith Rheoli Perfformiad. Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2018 - 19 yn dangos y cynnydd a wnaed gennym wrth fodloni'r Amcanion hyn.

Mae'r tabl canlynol yn dangos Amcanion Llesiant y Cyngor Sir a'u cyfraniad at y 7 nod Lles Cenedlaethol. Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'r cyfraniad uniongyrchol tuag at y nodau 'Mwy Cyfartal' a 'Chymunedau Cydlynol' trwy'r dogfennau cynllunio manwl ar wefan gorfforaethol y Cyngor.

Amcanion Llesiant / KIOPs Sir Gâr ar gyfer 2017/18			7 Nod Llesiant Cenedlaethol						
			Llewyrch	Cydnorthedd	Iachach	Mwy cyfartal	Cymunedau Cyclynus	Diwylliant bywiog a'r Gymraeg	Cyfrifoldeb bydeang
Dechrau yn Dda	1	Helpu i roi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn a gwella eu profiadau	✓		✓	✓	✓		
	2	Helpu plant i ddilyn ffyrdd iach o fyw	✓		✓	✓	✓	✓	
	3	Parhau i wella cyrhaeddiad pob dysgwyr	✓	✓		✓		✓	✓
	4	Lleihau nifer yr oedolion ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant	✓		✓	✓	✓		
Byw yn Dda	5	Trechu tlodi drwy wneud popeth o fewn ein gallu i'w atal, gan helpu pobl i gael gwaith a gwella bywydau'r rheiny sy'n byw mewn tlodi	✓		✓	✓	✓		
	6	Creu mwy o swyddi a thwf ledled y sir	✓		✓	✓	✓	✓	
	7	Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael	✓	✓	✓	✓	✓		
	8	Helpu pobl i fyw bywydau iach (mynd i'r afael ag ymddygiad peryglus a gordewdra)	✓		✓	✓	✓	✓	
Heneiddio yn Dda	9	Cefnogi cysylltiadau da â ffrindiau, y teulu a chymunedau mwy diogel			✓	✓	✓		
	10	Cefnogi'r nifer cynyddol o bobl hŷn er mwyn iddynt gadw'u hurddas a'u hannibyniaeth	✓		✓	✓	✓	✓	
	11	Ymagwedd ledled y Cyngor tuag at gefnogi Heneiddio'n dda yn y sir	✓		✓	✓	✓	✓	
Mewn Amgylchedd Iach, Diogel a Llewyrchus	12	Gofalu am yr amgylchedd nawr ac ar gyfer y dyfodol	✓	✓	✓				
	13	Gwella isadeiledd a chysylltedd y priffyrdd a thrafnidiaeth	✓	✓	✓	✓	✓		
	14	Hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a Diwylliant Cymru	✓	✓		✓	✓	✓	

1.2 Unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i gyflawni'r dyletswyddau

Ein rôl fel Cyflogwr

Amser i Newid Cymru

Amser i Newid Cymru yw'r ymgyrch genedlaethol gyntaf ar gyfer rhoi terfyn ar y stigma a'r gwahaniaethu y mae pobl â phroblemau iechyd meddwl yn eu hwynebu. Mae angen cynnal ymgyrch o'r fath oherwydd er bod problemau iechyd meddwl yn gyffredin iawn, mae'n bwnc tabŵ yn aml o hyd. Yn aml mae pobl sydd â salwch meddwl yn wynebu stigma a gwahaniaethu yn y gweithle, yn gymdeithasol, ac o fewn teuluoedd. Gall hyn olygu fod byw â phroblem iechyd meddwl yn anoddach na'r symptomau eu hunain. Y nod yw gwella'r wybodaeth sydd gan bobl am salwch meddwl a'u dealltwriaeth ohono, ac, yn bwysicach byth, cael pobl i siarad am iechyd meddwl.

Mae'r Tîm Iechyd Galwedigaethol yn arwain ein hymrwymiad corfforaethol i'r ymgyrch genedlaethol ac maent wedi cynnal amrywiol ymgyrchoedd ymwybyddiaeth megis y 'Diwrnod Amser i Siarad' a'r Cardiau Addewid gyda'r Prif Weithredwr a'r Aelodau Etholedig.

Polisi Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Mae'r Cyngor yn sylweddoli y bydd ei weithwyr, boed yn ddynion neu'n ferched, ymhlith y rhai yr effeithir arnynt gan gamdriniaeth ddomestig a thrais rhywiol, boed hynny fel dioddefwyr/goroeswyr camdriniaeth ddomestig a/neu drais rhywiol; ffrindiau, teulu neu gydweithwyr dioddefwyr/goroeswyr; neu bobl sy'n cyflawni cam-drin domestig a/neu drais rhywiol. Rydym wedi paratoi a chyhoeddi Polisi Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, sydd ar gael i'w weld yn Adran Polisiâu a Chanllawiau Adnoddau Dynol y fewnrwyd, trwy reolwyr llinell, Cynrychiolwyr Undebau Llafur neu'r Uned Iechyd Galwedigaethol.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ymrwymo i sicrhau y bydd yn gwrando ar unrhyw aelod o staff sy'n datgelu cam-drin domestig a/neu drais domestig ac yn rhoi cymorth iddynt.

Mae Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn gyfraith arloesol, y cyntaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig. Un o'r dulliau allweddol ar gyfer cyflwyno'r Ddeddf yng Nghymru yw sicrhau bod pawb sy'n gweithio yng Ngwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ymwybodol o natur y Ddeddf a'r effaith y mae'n ei chael ar y bobl, beth bynnag eu rhyw.

Mae'r tîm Dysgu a Datblygu wedi sicrhau bod modd i'r holl staff gael mynediad i fodiwl e-ddysgu gorfodol Llywodraeth Cymru ar Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r modiwl e-ddysgu hwn yn darparu ymwybyddiaeth o'r materion ac, yn bwysig iawn, yn darparu dealltwriaeth o'r modd y gallai staff helpu i fynd i'r afael â hwy.

Ymrwymodd y Tîm Rheoli Corfforaethol i sicrhau bod gan bob rhan o'n gweithlu'r cyfle i dderbyn yr hyfforddiant ymwybyddiaeth hwn, gan wneud trefniadau penodol ar gyfer y rheiny nad oes ganddynt fynediad i e-ddysgu. Darparwyd hyfforddiant ychwanegol hefyd ar gyfer y rheiny sy'n ymgymryd â rolau proffesiynol/arbenigol.

Ein rôl fel darparwr gwasanaethau

Gwasanaeth Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Cymru (WITS)

Mae'r awdurdod yn un o bartneriaid Gwasanaeth Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Cymru (WITS). Mae'r corff hwn yn gweithredu fel "siop un stop" er mwyn cynorthwyo pobl agored i niwed, nad ydynt efallai'n siarad Cymraeg neu Saesneg fel iaith gyntaf, i gael mynediad i wasanaethau cyhoeddus. Trwy WITS gall yr Awdurdod ddefnyddio gwasanaethau cyfieithwyr a chyfieithwyr ar y pryd sydd wedi'u hyfforddi a'u hachredu ac sydd wedi'u harchwilio'n llawn at ddibenion diogelwch, ac sy'n cwmpasu oddeutu 135 o ieithoedd.

Anghydraddoldebau mewn Addysg

Mae'n ofynnol i bob ysgol gyhoeddi **Amcanion Cydraddoldeb a Chynllun Cydraddoldeb Strategol** sy'n cofnodi'r modd y mae'r ysgol yn ymateb i faterion cydraddoldeb. Diben yr amcanion a'r cynllun yw bod modd cyflawni deilliannau cydraddoldeb mesuradwy sy'n gwella bywydau unigolion a chymunedau.

Gwasanaeth Cyrhaeddiad Lleiafrifoedd Ethnig Sir Gaerfyrddin

Eleni rydym wedi gweld cynnydd bach yn unig yn ein poblogaeth Saesneg/Cymraeg fel iaith ychwanegol. Ar hyn o bryd, mae gennym fwy na 1200 o ddysgwyr Saesneg fel iaith Ychwanegol ar ein cofrestr ac rydym yn cefnogi 400 + o ddysgwyr cyfnod A-C mewn 40 o ysgolion ledled Sir Gaerfyrddin. Eleni rydym wedi gallu cynyddu ein cymorth mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Ar hyn o bryd mae'r tîm MEAS yn cynnwys 4 Athro Arbenigol Saesneg fel iaith Ychwanegol, 2 Gynorthwydd Addysgu Dwyieithog sy'n siarad Pwyleg a 3 Chynorthwydd Addysgu Dwyieithog sy'n siarad Arabeg, sy'n gweithio gyda phlant ffoaduriaid a'u teuluoedd.

Gwasanaeth Cyrhaeddiad Teithwyr Sir Gaerfyrddin

Eleni mae'r gwasanaeth wedi gallu cefnogi 6 ysgol uwchradd a 7 ysgol gynradd. Mae gennym 171 o blant ar ein cofrestr ar hyn o bryd, ac nid yw pob un o'r rhain yn derbyn cymorth ar hyn o bryd.

Bu gwelliant cyffredinol o ran presenoldeb plant teithwyr yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi cael ychydig o effaith ar wella eu lefelau cyrhaeddiad mewn ysgolion cynradd.

Gwasanaeth Cymorth Cysylltiedig â Thai - Mae'r Gwasanaethau Tai wedi datblygu gwasanaeth cymorth tai newydd i bobl sydd dros 55 oed ac i bobl sydd â dementia, beth bynnag fo'u hoed. Bydd hyn yn berthnasol ar gyfer pob deiliadaeth (preifat neu gyhoeddus) a chaiff ei roi lle nodwyd bod angen cymorth sy'n gysylltiedig â thai.

Os oes angen cymorth yn ymwneud â thai ar rywun, bydd yn derbyn cymorth p'un a yw'n denant i Gyngor Sir Caerfyrddin ai peidio. Bydd hwn yn wasanaeth llawer tecach, a fydd ar gael hefyd i'r rheiny sy'n berchenogion tai neu'n denantiaid preifat. Bydd y gwasanaeth yn wasanaeth cymorth fel y bo'r angen i Bobl Hŷn. Bydd yn darparu cymorth cysylltiedig â thai i alluogi pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder sydd eu hangen i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

Cymorth gyda chasgliadau gwastraff

Ar hyn o bryd mae dros 1,000 o bobl yn derbyn ein gwasanaeth cymorth gyda chasgliadau gwastraff, ac mae cryn gyhoeddusrwydd yn cael ei roi i'r cynllun yn y Canllaw Hwylus i Ailgylchu Sbwriel (a anfonir i bob aelwyd) a Newyddion Sir Gaerfyrddin.

Gellir rhoi cymorth gyda bagiau glas ac ailgylchu gwastraff bwyd, ac mae help gyda gwastraff swmpus hefyd ar gael i'r bobl sy'n gymwys i'w gael.

Ein rôl fel Arweinydd Cymunedol

Y Rhaglen Adsefydlu Syriaid yn Sir Gaerfyrddin

Hyd yn hyn, mae Sir Gaerfyrddin wedi croesawu 20 o deuluoedd, gyda chyfanswm o 87 o bobl, o dan y cynllun ailsefydlu Syria, fel a ganlyn:

Llanelli	7 teulu
Rhydaman	1 teulu
Llandeilo	1 teulu
Pontyberem	2 deulu
Cydweli	2 deulu
Caerfyrddin	6 teulu
Garnant	1 teulu

Mae pob plentyn oedran ysgol yn mynychu'r ysgol, ac eithrio un sy'n aros am leoliad arbenigol. Mae pob oedolyn yn mynychu dosbarthiadau Saesneg.

Yn ogystal â chymorth unigol, rydym hefyd yn cynnal sesiynau gwybodaeth i'r teulu bob dau fis. Daw asiantaethau perthnasol i siarad â'r teuluoedd gyda'i gilydd, gyda gwasanaeth dehongli ar gael trwy gydol y digwyddiad. Ffocws y digwyddiad nesaf bydd paratoi ar gyfer Credyd Cynhwysol, a llwybrau i gyflogaeth.

Mae un teulu wedi symud allan o Sir Gaerfyrddin i ymgymryd â gwaith. Mae eu cartref i'w ail-osod i deulu arall sy'n cyrraedd y mis hwn.

Y nifer a ragwelir i gyrraedd yn 2018/19 yw 12 teulu (tua 55 o bobl).

Yn gynharach eleni, ymgynghorodd y Swyddfa Gartref am yr hyn y dylai'r rhaglen ailsefydlu edrych fel ar ôl Mawrth 2021. Byddwn yn parhau i fonitro hyn; fodd bynnag, mae yna arwyddion mai'r bwriad yw parhau i gynnal ailsefydlu yn ôl y bwriad. Mae'n debygol hefyd y bydd cynlluniau ar wahân yn cael eu cyfuno ar gyfer

symlwrwydd. Byddai ffoaduriaid o Syria wedyn yn yr un sefyllfa â ffoaduriaid o wledydd eraill y Dwyrain Canol, Afghanistan, Eritrea a Sudan.

Mae gennym grŵp tasg aml-asiantaeth sy'n cwrdd bob deufis, er mwyn sicrhau bod yr holl asiantaethau perthnasol yn gweithio gyda'i gilydd i gyflwyno'r cynllun yn effeithiol.

Mae'r aelodaeth yn cynnwys Tai, Addysg / Gwasanaethau Plant, Cymunedau yn Gyntaf, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Heddlu Dyfed-Powys, Yr Adran Gwaith a Phensiynau, Coleg Sir Gâr, Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Gaerfyrddin a'r Tîm Cefnogi Ieuentid Ethnig. Mae'r grŵp hwn yn cael ei gadeirio gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai.

Mae Sir Gaerfyrddin wedi sefydlu a chyflwyno system gymorth effeithiol ar gyfer teuluoedd Syria, ac mae mewn sefyllfa dda i gwrdd â'n hymrwymiad i dderbyn 60 o deuluoedd o fewn pum mlynedd. Rydym wedi gwneud iawn am ddiffyg profiad yn y maes gwaith hwn trwy ddod â'r holl asiantaethau perthnasol at ei gilydd, ac rydym yn barod i ddysgu gan eraill. Mae ein llwyddiant hyd yn hyn wedi cael ei gydnabod mewn adroddiadau diweddar gan Lywodraeth Cymru a'r Academi Brydeinig.

Cydlyniant Cymunedol

Ariannwyd Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol gan Lywodraeth Cymru o'r Gronfa Cydlyniant Cymunedol i weithio gyda Chynghorau Sir Caerfyrddin, Ceredigion, Powys a Phenfro.

Mae'r Cydgysylltydd yn hwyluso gweithrediad rhanbarthol y Cynllun Cyflawni Cenedlaethol ar gyfer Cydlyniant Cymunedol ac yn creu cysylltiadau niferus â sefydliadau sy'n gweithio ar draws y rhanbarth. Yn ystod y flwyddyn rydym wedi gallu manteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu, gan ganolbwyntio ar ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb.

Grŵp o sefydliadau yw **Sir Gâr Cyfartal** sy'n cynrychioli nodweddion gwarchoddedig y Ddeddf Cydraddoldeb a darparwyr gwasanaethau lleol.

Yn ystod y flwyddyn, mae Sir Gâr Cyfartal wedi parhau i adeiladu rhwydwaith a rhannu gwybodaeth rhwng sefydliadau. Rydym hefyd wedi gweithio ar galendr o weithgareddau er mwyn hyrwyddo diwrnod dathlu amrywiaeth.

Mae Sir Gâr Cyfartal hefyd wedi dosbarthu a chyfrannu at nifer o ymgynghoriadau yn ystod y flwyddyn, gan gynnwys ymgynghoriadau Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda ar Trawsnewid Gwasanaethau Iechyd Meddwl a Thrawsnewid Ymgysylltiad Gwasanaethau Clinigol.

Cynghrair Anabledd Sir Gaerfyrddin

Mae'r Cyngor yn parhau i gefnogi gwaith y Gynghrair ac yn elwa ar ei hadborth a'i chyngor. Er enghraifft, gwnaed gwaith i wneud gwybodaeth yn fwy hygyrch. Mae hyn yn cynnwys gwaith i sicrhau bod gwefan y Cyngor yn gwbl hygyrch i feddalwedd darllen sgrîn, caiff dogfennau electronig bellach eu cyhoeddi mewn fersiynau uniaith a gwnaed gwelliannau i fformat y llythyrau printiedig i'w gwneud yn haws eu darllen. Fel enghraifft bellach, mae'r Gynghrair yn gweithio gyda'n hadran hamdden ar gynllunio gwaith i wella hygyrchedd llwybrau ym Mharc Gwledig Pen-bre. Datblygwyd y berthynas rhwng y Cyngor a'r Gynghrair trwy gynnal cyfarfodydd bob dau fis rhwng yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Anableddau, y Cynghorydd Jane Tremlett, a Chadeirydd a swyddogion allweddol y Gynghrair.

Pride Cymru, Caerdydd 26/27 Awst 2017

Cynrychiolwyd Sir Gâr fel rhan o stondin Cynghorau Balch, rhwydwaith o 10 o gynghorau ledled De Cymru, gan gynnwys Rhondda Cynon Taf, Merthyr, Caerdydd, Caerffili, Abertawe, Casnewydd, Torfaen a Bro Morgannwg. Mae Cynghorau Balch wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb mewn gwasanaethau cyhoeddus a dileu'r rhwystrau sy'n wynebu pobl LGBT.

Yn ystod y digwyddiad, gofynnwyd i ymwelwyr am adborth er mwyn helpu i wella gwasanaethau'r cynghorau yn awr ac yn y dyfodol. Gofynnwyd i aelodau'r gymuned LGBT ddisgrifio'r prif rwystrau a wynebwyd wrth fynd at wasanaethau cyhoeddus, pa weithgareddau a gwasanaethau a oedd yn canolbwyntio ar LGBT yr hoffent eu gweld yn eu cymunedau, a sut y gallai cynghorau annog mwy o gyfranogiad gan y gymuned LGBT i helpu i lunio gwasanaethau lleol. Gofynnodd yr arolwg hefyd am brofiad pobl o drosedd casineb, sut yr oeddent yn ei hysbysu neu beth oedd yn eu hatal rhag adrodd.

Hoffai'r rhai a ymatebodd i'r arolwg weld mwy o grwpiau cymorth yn ogystal â thoiledau niwtral o ran rhyw. Yn ogystal, gofynnwyd am fwy o gefnogaeth ar ffurf grwpiau cymunedol, digwyddiadau i helpu i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a mwy o addysg mewn ysgolion. Nododd llawer fod yr ofn o feirniadaeth neu farn yn fater arall y maent yn ei hwynebu.

Adran 2 – Adnabod, casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol

2.1 Ein cymunedau

Cefndir ystadegol

Amcangyfrifir bod poblogaeth Sir Gaerfyrddin yn 184,681, gyda dwysedd poblogaeth (nifer y boblogaeth/ardal fesul cilometr sgwâr) o 78 person am bob cilometr sgwâr. Mae'r Sir yn wledig ac yn amrywiol iawn. Mae'n cynnwys 58 o Wardiau Etholiadol gyda 74 o Aelodau Etholedig. Cynhyrchwyd Proffiliau Demograffig o bob un o'r Wardiau Etholiadol, ac ar gyfer y Sir, gan ddarparu darlun o fywyd yn y cymunedau unigol, yn ogystal â gwybodaeth leol werthfawr. Bydd y proffiliau'n rhoi gwybodaeth megis y canlynol i chi:

- Ystadegau Poblogaeth
- Dwysedd Poblogaeth
- Cyfraddau Genedigaeth a Marwolaeth
- Data Cyfrifiad 2011
- Gwybodaeth am Dai

Gellir cyrchu [Proffiliau'r Wardiau](#) trwy'r wefan gorfforaethol.

Mae gwybodaeth ystadegol yn rhoi gwybodaeth sylfaenol ddefnyddiol i ni; fodd bynnag, nid yw canlyniadau'r Cyfrifiad yn darparu gwybodaeth ynghylch yr holl nodweddion gwarchoddedig.

Fel awdurdod lleol, gallwn gael mynediad i gyfoeth o ddata. Ein nod allweddol wrth baratoi'r adroddiad tystiolaeth oedd canfod data a fyddai'n cefnogi'r Ddyletswydd Gyffredinol yn y canlynol:

1. Dileu camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir gan y Ddeddf
2. Gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno
3. Meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

2.2 Ein staff

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi bod yn casglu data cyflogaeth ers nifer o flynyddoedd, ar y grwpiau oedd yn ofynnol ar y pryd. Gwellir gweld ein Hadroddiad ar Broffil y Gweithle ar ein gwefan gorfforaethol. Ar ôl cyhoeddi Deddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Penodol Cymru 2011, mae'r is-adran Rheoli Pobl wedi bod yn gweithio i ddiweddarau ein ffurflenni monitro recriwtio a'n meddalwedd Resource Link, er mwyn casglu'r data newydd ar y nodweddion gwarchoddedig ehangach. Mae hon yn broses barhaus.

Adran 3 – Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb

Mae Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb yn elfen allweddol o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a'i amcanion, ac maent yn rhan annatod o bob penderfyniad ynghylch cyllideb, polisi a strategaeth. Mae'n ofynnol bod Penaethiaid Gwasanaeth a Rheolwyr Cyllideb yn cwblhau asesiad o'r holl benderfyniadau polisi fel rhan o'r penderfyniadau Cyllidebu ar Sail Blaenoriaeth a phob asesiad. Mae hefyd yn allweddol bod asesiadau'n cael eu cynnal fel rhan o ddatblygu pob polisi a strategaeth a bod y templed Newid Sefydliadol yn cael ei lenwi pan fydd yna ystyriaethau Adnoddau Dynol.

Yn ystod y flwyddyn, mae'r Tîm Polisi a Phartneriaeth wedi bod yn arwain y gwaith o baratoi Asesiad Integredig drafft. Mae hyn oherwydd y ffaith ei bod yn ofynnol yn statudol i'r Cyngor gwblhau asesiadau effaith o dan nifer o ddeddfwriaethau newydd a phresennol.

Mae'r gofynion hyn yn rhwymedigaethau cyfreithiol ar gyfer y Cyngor a gall methu â chyflawni'r dyletswyddau hyn olygu bod y Cyngor yn wynebu her gyfreithiol.

Mae'r asesiad integredig hwn yn ymgorffori gofynion y Deddfau canlynol mewn un Asesiad Effaith:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur y Gymraeg 2011 a Safonau'r Gymraeg
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 – y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau

Adran 4 – Hyfforddiant

Mae Tîm Dysgu a Datblygu'r Cyngor yn paratoi Cynllun Dysgu a Datblygu blynyddol sy'n amlinellu'r holl gyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd ar gael - yn cynnwys cyfleoedd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth. Mae gofyn bod Rheolwyr Llinell yn trafod cyfleoedd dysgu a datblygu wrth arfarnu staff, ac yn sicrhau bod staff yn cael cyfleoedd i ddatblygu'n broffesiynol. Mae'n ofynnol i bob aelod newydd o staff gwblhau'r modiwl dysgu ar-lein "Arddel Amrywiaeth" cyn pen chwe mis ar ôl eu penodi. Mae'n ofynnol i bob Rheolwr ac Uwch-reolwr fynychu'r hyfforddiant Urddas yn y Gweithle ac, os ydynt yn ymwneud â gweithgareddau recriwtio, Hyfforddiant Recriwtio a Dethol.

Adran 5 – Trefniadau caffael

Trefniadau caffael

Mae'r Tîm Polisi a Phartneriaeth yn gweithio'n agos gyda'r Uned Gaffael i sicrhau cydymffurfiaeth. Un o'r dogfennau allweddol yw'r Gronfa Ddata o Wybodaeth ynghylch Cymwysterau Cyflenwyr (SQuID). Darperir y wybodaeth hon ar ffurf templed gan Is-adran Gwerth Cymru yn Llywodraeth Cymru.

Lluniwyd y SQuID i symleiddio a safoni cam dethol y broses gaffael, a gwella tryloywder ar yr un pryd. Mae'r dull hwn hefyd yn golygu ei fod yn haws i fusnesau bach dendro am gontractau sector cyhoeddus. Cynhwyswyd gwybodaeth ynghylch Cydraddoldeb yn y dogfennau SQuID, ac mae'n rhaid i bob darpar gyflenwr lenwi'r adran hon. Mae'r templed SQuID yn gofyn yn benodol i ddarpar gyflenwyr am wybodaeth mewn perthynas ag unrhyw ganfyddiadau o wahaniaethu anghyfreithlon gan Dribiwnlys Cyflogaeth, Tribiwnlys Apeliadau Gweithwyr, neu unrhyw lys arall a/neu unrhyw gŵynion a gadarnhawyd yn dilyn ymchwiliad gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol neu ei ragflaenwyr (neu gorff cymaradwy mewn unrhyw awdurdodaeth heblaw'r DU) ar sail gwahaniaethu anghyfreithlon honedig. Mae'r canllawiau'n nodi'n glir na fydd darpar gyflenwyr sydd ag unrhyw ganfyddiadau yn eu herbyn yn cael eu dethol i dendro, oni bai eu bod wedi darparu tystiolaeth ddigonol eu bod wedi cymryd camau priodol i atal hynny rhag digwydd eto.

Adran 6 – Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth am Gynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Sir Caerfyrddin, cysylltwch â'r

Tîm Polisi a Phartneriaeth
Neuadd y Sir
Caerfyrddin
SA31 1JP

01267 224914

cydraddoldeb@sirgar.gov.uk

Hefyd gallwch gysylltu â Galw Sir Gâr trwy anfon neges destun

0789 2345678